# Atal gwastraff

Bydd lleihau faint o wastraff rydych yn ei gynhyrchu'n helpu i arbed arian

- Darparu e-docynnau, canllawiau electronig a mapiau i ymwelwyr;
- Nodi y dylid defnyddio cynhyrchion eilgylch neu y gellir eu hailgylchu yn yr amodau masnachu ar gyfer deunyddiau hyrwyddo neu ar gyfer cynhyrchion gwasanaeth bwyd;
- Annog defnyddio cwpanau neu wydrau y gellir eu hail-lenwi, sefydlu cynllun ernes a dychwelyd ar gyfer cynwysyddion diodydd ailddefnyddiadwy;
- Darparu gorsafoedd ail-lenwi ar gyfer dŵr yfed;
- Cyfyngu ar ba nwyddau y caiff ymwelwyr, cyflenwyr, gwerthwyr neu arlwywyr ddod â nhw i'r lleoliad;
- Annog peidio â defnyddio eitemau untro fel pecynnau saws, llaeth, siwgr neu goffi unigol ac
- Annog arlwywyr i roddi stoc gwarged neu heb ei werthu.

# Deunyddiau a ddargyfeiriwyd o dirlenwi

| ar wahân) | Tunelledd | Cyfaint | Cyrchfan |
|---|---|---|---|
| Cardbord/ papur | 6.3 Tunnell | 4 x ro-ros 40cyd | Hereford Waste paper |
| Gwydr | 5 tunnell | 64 o finiau olwynion | PCC |
| Gwastraff bwyd | 4 tunnell | 2 x sgipiau 40cyd | Compost PCC |
| Bwyd dros ben | 30kg | 60lt llaeth, 100kg ffa tun, 12 x bocs o fara pita. | Dosbarthwyd i brosiect Digartrefedd Shrewsbury Arc, a thrigolion lleol |
| Plastig a chaniau | 6.3 tunnell | 250 wb plastig 40 x wb caniau | Caepost |
| Tetra Pak | 20 kg | Tua 11 x bag | Ailgylchu Cartonau ACE |
| Ffilm polythen | 280 kg | | Wye Waste Paper |
| Olew gwastraff | 165 litr = 0.2 tunnell | | Trosi i danwydd Gwyrdd |
| Llyfrau | 250kg | 25 x cynhwysydd | Siopau llyfrau elusen yn y Gelli a'r ardal leol. |
| Cretiau llaeth | 10kg | | Dychwelwyd i'r llaethdy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Basgedi bara | 10kg | | Dychwelwyd i'r becws |
| Metel sgrap | 180kg | | Anfonwyd i ailgylchu |
| Amrywiol ddeunyddiau crefft a baneri | 20kg | | Storfa ailgylchu plant |
| Tecstilau | 10kg | | Ailgylchu tecstilau OXFAM a |
| Offer trydanol | 10kg | | Anfonwyd ar gyfer ailgylchu WEEE |
| Bordiau Foamex/Corex | 20kg | | Anfonwyd i Zenith – ailgylchwyd |
| Carpedi | 10 tunnell | 3 x sgipiau 40cyd | Potters Waste Management |
| Cyfanswm Tunelledd a Ailgylchwyd | 26.61 tunnell | | |
| | | | |
| | | | |
| Tirlenwi | 9 tunnell | Cyfanswm o 3 x ro-ros 40cyd | Quick Skips |

# Cwpanau Coffi Ailddefnyddiadwy



Mae'r Cynllun Cwpanau, ynghyd â dull llymach o ymdrin â chreu gwastraff yn gyffredinol, wedi arwain at leihau gwastraff cyffredinol na ellir ei ailgylchu gan 25%.

**Cwpanau coffi compostadwy:**

- 2017 : 350 llond bin olwynion (*full wheelie bins*/FWB) (biniau 240lt)
- 2018 : 25 FWB = lleihad 92%.
- 2019 : 11 FWB = lleihad 56%.
- 2023 : 25 FWB = lleihad 92%.
- 2023 : defnyddiwyd 27912 o gwpanau coffi: dychwelwyd 23880 cwpan fudr : aethpwyd â 4032 gartref.

**Caniau a phlastig i'w hailgylchu**

- 2017 : 1,000 FWB
- 2018 : 850 FWB = lleihad 15%.
- 2019 : 479 FWB = lleihad 44%
- 2023 : 250 FWB (plastig) 40 FWB (caniau) = lleihad 71%.

# Ymyriadau a Dyfeisiadau

Mynd ati'n weithredol i ddefnyddio gwyliau a digwyddiadau fel lleoedd i arbrofi a threialu:

- newid cymdeithasol, cysyniadau a syniadau newydd
- Arbrofion, ymyriadau a dyfeisiadau ffisegol



